Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/VG/0720/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

1 Hydref 2019

Annwyl Mick

Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am Wasanaeth Dim Smygu Cymru o Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r Byrddau Iechyd Lleol

Hoffwn dynnu eich sylw at fater gweithdrefnol.

Mae'r gwasanaeth "Dim Smygu Cymru" yn wasanaeth cenedlaethol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddarparu ar hyn o bryd gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn dilyn adolygiad o wasanaethau rhoi'r gorau i smygu yng Nghymru, penderfynais drosglwyddo'r cyfrifoldeb am Dim Smygu Cymru o Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r Byrddau Iechyd Lleol Gan fod gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu wedi dod yn rhan o ddarpariaeth prif ffrwd y GIG, mae'n gwneud synnwyr i'r gwasanaeth arbenigol rheng flaen hwn gael ei gynllunio, ei drefnu a'i reoli gan y byrddau iechyd.

Mae Dim Smygu Cymru yn cynnwys staff, a gyflogir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n rheoli ac yn rhedeg clinigau Dim Smygu Cymru. Er mwyn gweithredu'r trosglwyddiad staff o Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r byrddau iechyd, rwyf wedi gwneud y Gorchymyn amgaeedig, sy'n defnyddio'r pwerau ym mharagraff 24 o Atodlen 2 i Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Hydref 2019. Gan fod Adran 203(3)(c) o Ddeddf 2006 yn nodi nad oes modd i bŵer Gweinidogion Cymru i wneud Gorchymyn o dan baragraff 24 o Atodlen 2 gael ei arfer drwy offeryn statudol, ni fydd y Gorchymyn yn destun unrhyw weithdrefn statudol. Rwyf wedi ysgrifennu hefyd at Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol, yn cyfarwyddo y dylai'r cyfrifoldeb am weithredu Dim Smygu Cymru gael ei drosglwyddo fel ei fod yn dod i rym o 1 Hydref 2019 ymlaen. Amgaeaf gopi o'r llythyr er gwybodaeth ichi.

Yn gywir,

Vaughan Gething

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

CC Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Trosglwyddo Staff (Gwasanaeth Dim Smygu Cymru) 2019

Gwnaed	*26 Medi 2019*
Yn dod i rym	*1 Hydref 2019*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 24 o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trosglwyddo Staff (Gwasanaeth Dim Smygu Cymru) 2019.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2019.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi ei sefydlu yn unol ag adran 11(2) o'r Ddeddf;

ystyr "y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n drosglwyddai" ("*the transferee Local Health Board*") yw'r Bwrdd Iechyd Lleol y rhoddwyd gwybod i berson yn ysgrifenedig gan ICC, cyn y dyddiad trosglwyddo, y byddai'n trosglwyddo i'w gyflogaeth ar y dyddiad trosglwyddo;

ystyr "DSC" ("*SSW*") yw Gwasanaeth Dim Smygu Cymru;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Hydref 2019;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "ICC" ("*PHW*") yw Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru;

ystyr "Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru" ("*Public Health Wales NHS Trust*") yw'r Ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd gan Orchymyn

(**1**) 2006 p. 42.

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009(**1**).

Trosglwyddo staff i Fyrddau Iechyd Lleol

3.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i berson—

(a) sydd wedi ei gyflogi gan ICC yn union cyn y dyddiad trosglwyddo mewn cysylltiad â swyddogaethau DSC, a

(b) sydd wedi cael ei hysbysu'n ysgrifenedig gan ICC cyn y dyddiad trosglwyddo ei fod i'w drosglwyddo i gyflogaeth Bwrdd Iechyd Lleol ar y dyddiad trosglwyddo.

(2) Mae contract cyflogaeth person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo i'w drosglwyddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n drosglwyddai.

(3) O ran contract cyflogaeth person y mae ei gyflogaeth wedi ei throsglwyddo i Fwrdd Iechyd Lleol o dan baragraff (2)—

(a) nid yw'r trosglwyddiad yn ei derfynu, a

(b) mae'n cael effaith o'r dyddiad trosglwyddo fel pe bai wedi ei wneud yn wreiddiol rhwng y person hwnnw a'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n drosglwyddai.

(4) Heb ragfarnu paragraff (3)—

(a) mae holl hawliau, pwerau, dyletswyddau ac atebolrwyddau ICC o dan gontract cyflogaeth person y trosglwyddwyd ei gyflogaeth i'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n drosglwyddai ar y dyddiad trosglwyddo o dan baragraff (2), neu mewn cysylltiad â'r contract hwnnw, i'w trosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n drosglwyddai, a

(b) bernir bod unrhyw weithred neu anweithred cyn y dyddiad trosglwyddo gan ICC neu mewn perthynas ag ICC, mewn cysylltiad â'r person hwnnw neu gontract cyflogaeth y person hwnnw, yn weithred neu anweithred gan y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n drosglwyddai neu'n weithred neu anweithred mewn perthynas ag ef.

(5) Nid yw paragraffau (2) i (4) yn cael effaith i drosglwyddo contract cyflogaeth person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo, neu unrhyw hawliau, pwerau, dyletswyddau ac atebolrwyddau o dan y contract hwnnw neu mewn cysylltiad ag ef, os yw'r person hwnnw, cyn y dyddiad trosglwyddo, yn rhoi gwybod i ICC ei fod yn gwrthwynebu dod yn gyflogedig gan y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n drosglwyddai.

(**1**) O.S. 2009/2058 (Cy. 177).

(6) Pan fo person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo wedi gwrthwynebu trosglwyddo ei gontract cyflogaeth i'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n drosglwyddai fel y'i disgrifir ym mharagraff (5), mae'r trosglwyddiad yn gweithredu er mwyn terfynu contract cyflogaeth y person hwnnw ag ICC.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), nid yw person y mae ei gontract cyflogaeth yn cael ei derfynu yn unol â pharagraff (6) i'w drin, at unrhyw ddiben, fel pe bai wedi cael ei ddiswyddo gan ICC.

(8) Pan fo'r trosglwyddiad yn golygu, neu pan fyddai'n golygu, newid sylweddol yn yr amodau gwaith gan arwain at niwed sylweddol i berson y mae ei gyflogaeth yn cael ei throsglwyddo neu y byddai ei gyflogaeth wedi cael ei throsglwyddo o dan baragraff (2), caiff y person hwnnw drin y contract cyflogaeth fel pe bai wedi cael ei derfynu, ac mae'r person hwnnw i'w drin at unrhyw ddiben fel pe bai wedi cael ei ddiswyddo gan ICC.

(9) Nid yw unrhyw iawndal i fod yn daladwy gan ICC neu Fwrdd Iechyd Lleol o ganlyniad i ddiswyddo sy'n dod o fewn paragraff (8) mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant gan ICC i dalu cyflog i berson mewn cysylltiad â chyfnod rhybudd y mae'r person wedi methu â'i weithio.

(10) Nid yw paragraffau (2), (3), a (5) i (8) yn rhagfarnu unrhyw hawl sydd gan berson sy'n codi ar wahân i'r erthygl hon i derfynu contract cyflogaeth y person hwnnw heb rybudd wrth dderbyn tor contract ymwrthodol gan y cyflogwr.

(11) Mae cofnodion ICC sy'n ymwneud â chyflogaeth y personau hynny y mae paragraff (1) yn gymwys iddynt, ac y mae eu contractau cyflogaeth i'w trosglwyddo yn unol â'r erthygl hon, i'w trosglwyddo i'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n drosglwyddai, ar y dyddiad trosglwyddo.

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
26 Medi 2019